**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Maureen Potter 01352 702322

At: Cyng David Evans (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Mel Buckley, Chris Dolphin, Mared Eastwood, Ian Hodge, Ray Hughes, Richard Lloyd, Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose a Roy Wakelam

Dydd Mercher, 1 Mawrth 2023

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD HYBRID**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 7FED MAWRTH, 2023 10.00 AM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Gellir mynychu'r cyfarfod hwn naill ai wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint neu ar-lein.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

| | |
|---|---|
| 1 | **YMDDIHEURIADAU** |
| | I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau. |
| 2 | **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)** |
| | I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a Hynny. |
| 3 | **COFNODION** (Tudalennau 5 - 34) |
| | I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 10 Ionawr, 1 Chwefror a 7 Chwefror 2023. |
| 4 | **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU** (Tudalennau 35 - 44) |
| | Adroddiad Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Gofal Cymdeithasol -<br><br>Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi a rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd yn erbyn camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol. |
| 5 | **CYFLWYNIAD GAN REOLWR Y RHAGLEN TIR AC EIDDO AR GYFER UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU** |
| | Cael y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa bresennol prosiectau'r Rhaglen Tir ac Eiddo a'r broses o ganfod prosiectau amgen. |
| 6 | **SAFONAU'R GWASANAETHAU STRYD** (Tudalennau 45 - 54) |
| | Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r strategaeth cludiant rhanbarthol<br><br>Nid yw Safonau'r Gwasanaethau Stryd wedi cael eu hadolygu ers 2019. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r safonau presennol ac yn argymell diwygiadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gyflawni anghenion a disgwyliadau'r cyhoedd. |

7 **POLISI TORRI GLASWELLT** (Tudalennau 55 - 144)

Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r strategaeth cludiant rhanbarthol

Cynghori Craffu am y Polisi Torri Glaswellt diwygiedig

8 **STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL** (Tudalennau 145 - 152)

Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r strategaeth cludiant rhanbarthol

Cynghori Craffu bod y pwynt adolygu statudol ffurfiol nesaf ar gyfer ein Strategaeth Toiledau Lleol angen dilyn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mai 2022, a bod gennym flwyddyn o ddyddiad yr etholiadau i adolygu, diwygio, ymgynghori arno a chyhoeddi strategaethau diwygiedig ar gyfer ein hardal leol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r dull a gymerir ac amserlenni'r adolygiad. Bydd y Strategaeth Toiledau Lleol diwygiedig yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2023.

9 **GWASANAETHAU PROFEDIGAETH** (Tudalennau 153 - 160)

Adroddiad Prif Swyddog (Stryd a Chludiant) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r strategaeth cludiant rhanbarthol

Hysbysu'r pwyllgor am y gwasanaethau a ddarperir a'r heriau a wynebir.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***